Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 20.12.2022

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## AROLWG: Sut gallwn ni ddal ati i wneud ein bwletinau busnes yn well, ac a hoffech weld Wythnos Busnes Gwynedd yn dychwelyd?

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella a sicrhau eich bod yn cael yr help sydd ei angen arnoch. Rhowch wybod i ni sut y gallwn wneud ein bwletinau busnes hyd yn oed yn well ac os hoffech weld Wythnos Busnes Gwynedd yn dychwelyd yn 2023 trwy ateb cwpl o gwestiynau cyflym – ewch i:

https://bit.ly/ArolwgCefnogiBusnesGwyneddBusinessSupportSurvey

# TRETH: CThEF Bwletin y Cyflogwr – Rhagfyr 2022

Mae rhifyn mis Rhagfyr yn cynnwys erthyglau ar y gostyngiad yng nghyfradd cyfraniadau Yswiriant Gwladol; talu treuliau a buddiannau drwy'r gyflogres; Treth Deunydd Pacio Plastig a newidiadau i gyfraddau Treth Car Cwmni o fis Ebrill 2025 ymlaen. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/government/publications/employer-bulletin-december-2022.cy

# YMGYNGHORIAD: Cynllun trwyddedu ar gyfer holl ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ar sefydlu cynllun trwyddedu statudol ar gyfer holl ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru. Mae'r ymatebion i gyrraedd erbyn 17 Mawrth 2023 – i gymryd rhan, ewch i:

https://www.llyw.cymru/cynllun-trwyddedu-statudol-i-ddarparwyr-llety-ymwelwyr-yng-nghymru

# CYFLE: Miwtini Llawryddion – Llwyddo'n Lleol 2050

Mae Llwyddo'n Lleol 2050, Arloesi Gwynedd Wledig a Hwb Menter yn lansio rhaglen hyfforddiant arbennig 8 wythnos i lawryddion Gwynedd a Môn, darpar neu newydd, i ddechrau ar 25 Ionawr 2023. Mae ceisiadau ar agor ac yn cau ar 9 Ionawr 2023. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: jade@mentermon.com

Mae gwybodaeth pellach a ffurflen gais ar gael ar:

https://forms.gle/xWwicrMuYdzzm46c9

# CYSTADLEUAETH: Cogydd Cenedlaethol a Chogydd Ifanc Cymru

Mae Cymdeithas Goginio Cymru (CAW) wedi lansio cystadlaethau Cogydd Cenedlaethol a Chogydd Ifanc Cymru, ac yn edrych am gogyddion dawnus i roi eu sgiliau o dan y chwyddwydr yn nwy gystadleuaeth goginio bwysicaf Cymru. Gellir ymgeisio yn awr ar gyfer y ddwy gystadleuaeth, gyda'r dyddiad cau ar 31 Ionawr 2023. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3Wxlftx

# CYFLE: Stocio cynnyrch ar y stryd fawr

Mae 'Small Business Goes Big' yn bartneriaeth rhwng Enterprise Nation ag Adobe sy'n rhoi cyfle i fusnesau bach gyflwyno'u hunain i brynwyr manwerthu, gyda'r posibilrwydd y bydd eu cynnyrch yn cael ei stocio, â chyfle i ennill cyfran o grantiau ariannol gwerth £10,000. Bydd y gystadleuaeth yn cau ar 8 Ionawr 2023. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.enterprisenation.com/small-business-goes-big/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru